Dŵr Cymru
Welsh Water

# Dogfen Tariff Cyfanwerthu

2022-23

dwrcymru.com

# Cynnwys

1. Cyflwyniad 5

2. Sut i gysylltu â ni 6

3. Sut i dalu 6

4. Anghydfodau 6

5. Treth ar Werth 6

6. Atebolrwydd am daliadau, gan gynnwys dŵr a ddefnyddir i ddiffodd tân ac Addasiadau Gollyngiadau 6

7. Endidau achrededig 7

8. Cymelldaliadau gan gynnwys safle gwag ac eiddo gwag 7

9. Rhestrau codi taliadau eraill 7

10. Taliadau sylfaenol 8

11. Taliadau nad ydynt yn rhai sylfaenol 11

12. Gwasanaethau gwerth ychwanegol 14

**Y stori nid er elw**
Dysgwch ble y caiff eich arian ei fuddsoddi yn **dwrcymru.com/gwahanol**

## Diffiniad o dermau

Defnyddir y diffiniadau isod yn y ddogfen hon, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

**'Cwmni'** – Dŵr Cymru Cyfyngedig.

**'Cysylltiad'** – cysylltiad a reoleiddir gan y Ddeddf a deddfwriaeth berthnasol arall, y caiff y cwsmer fudd gwasanaethau'r Cwmni drwy hynny.

**'Datgysylltiad dros dro'** – unrhyw ddatgysylltiad ffisegol o Wasanaethau Dŵr nad yw'n Ddatgysylltiad Parhaol a chaiff "Wedi'i Ddatgysylltu Dros Dro" ei ystyried yn unol â hynny;

**'Datgysylltiad parhaol'** – unrhyw ddatgysylltiad ffisegol o Wasanaethau Dŵr lle y caiff cysylltiad â'r Rhwydwaith ei ddileu neu fel arall ei wneud yn anymarferol fel y gellid ond ailddechrau'r cyflenwad o Wasanaethau Dŵr yn y pwynt hwnnw petai cysylltiad newydd yn cael ei wneud a chaiff 'Wedi'i Ddatgysylltu'n Barhaol' ei ystyried yn unol â hynny.

**'Deddf'** – Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 ac unrhyw ddiwygiadau iddi.

**'Dŵr anyfadwy'** – dŵr na fwriedir iddo gyrraedd y safonau iachusrwydd a nodir mewn rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

**'Dŵr yfadwy'** – dŵr y bwriedir iddo gyrraedd y safonau iachusrwydd a nodir mewn rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

**'Endid achrededig'** – endid a gaiff ei werthuso a'i achredu'n annibynnol o dan gynllun achredu a sefydlwyd gan y Cyfanwerthwr sy'n Contractio fel endid sy'n gymwys i gyflawni gweithgareddau penodol. Un cynllun achredu o'r fath yw Cynllun Cofrestr Lloyd ar gyfer y Diwydiant Dŵr – Endid Achrededig (WIRSAE), sy'n cymeradwyo darparwyr i gyflawni gweithgareddau penodol ar ran Manwerthwyr fel dewis amgen i'r Cyfanwerthwr perthnasol.

**'Manwerthwr'** – deiliad Awdurdodiad Manwerthu Cyfyngedig, awdurdodiad a ddisgrifir ym mharagraff 6 o atodlen 2A i Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 h.y. awdurdodiad i ddefnyddio system gyflenwi Ymgymerwr a leolir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru at ddiben galluogi'r manwerthwr i gyflenwi gwasanaethau manwerthu i safleoedd cymwys sy'n defnyddio 50 megalitr neu fwy o ddŵr y flwyddyn; neu Dîm Cwsmeriaid Busnes y Cwmni.

**'Mesurydd di-farchnad'** – mesurydd dŵr, nad yw wedi'i gofrestru i Fan Cyflenwi, y mae Ymgymerwr yn berchen arno, ac sy'n fesurydd casgliadol ar Rwydwaith o Fesuryddion.

**'Pibell gyflenwi'** – unrhyw ran o bibell wasanaeth nad yw'n ofynnol i'r Cwmni ei gosod o dan Adrannau 45 a 46 o'r Ddeddf.

**'Pibell wasanaeth'** – y bibell (neu ran o'r bibell) sy'n cyflenwi dŵr o brif bibell y Cwmni i unrhyw safle, fel y'i diffinnir yn adran 219 o'r Ddeddf.

1. Gweler Canllawiau Ofwat http://www.ofwat.gov.uk/publication/eligibility-guidance-whether-non-household-customers-england-waleseligibleswitch-retailer/ a http://www.ofwat.gov.uk/publication/supplementary-guidance-whether-non-household-customers-englandwales-eligible-switch-retailer/

**'Safle cymwys'** – unrhyw safle cwsmer dibreswyl sy'n defnyddio mwy na 50 megalitr o ddŵr y flwyddyn.[1]

**'SPID'** – y talfyriad Saesneg ar gyfer Nod Adnabod Man Cyflenwi (a ddefnyddir i nodi mannau cyflenwi unigryw yn y Farchnad Trwyddedu Cyflenwi Dŵr).

**'Taliad nad yw'n sylfaenol'** – unrhyw Daliadau Cyfanwerthu nad ydynt yn Daliadau Sylfaenol ac i osgoi amheuaeth mae hyn yn cynnwys yr holl daliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau untro neu unigol a berfformiwyd yn unol â'r Telerau Gweithredol neu fel y nodir fel arall yn y Ddogfen Tariff Cyfanwerthu mewn perthynas ag amgylchiadau neu ddigwyddiadau penodol.

**'Taliad(au) sylfaenol'** – yr holl daliadau hynny yn y Ddogfen Tariff Cyfanwerthu sy'n ymwneud â chyflenwi Gwasanaethau Dŵr ar sail barhaus neu dros dro, ac yn cynnwys y canlynol:

I. Taliadau a lwfansau sefydlog a chyfeintiol;

II. Unrhyw daliadau eraill a nodir yn y Ddogfen Tariff Cyfanwerthu mewn perthynas ag amgylchiadau neu ddigwyddiadau penodol.

Ond ac eithrio:

I. Yr holl daliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau untro neu unigol a berfformiwyd yn unol â'r Telerau Gweithredol;

II. Ynghyd â phob taliad o'r fath a gyfrifir mewn perthynas â Chytundeb Arbennig drwy gyfeirio at y Ffactor(au) perthnasol.

**'Treth ar Werth'** neu 'TAW' – treth ar werth sy'n daladwy o dan Ddeddf Treth ar Werth 1994 neu unrhyw dreth neu doll yn ei lle;

**'Rheoliadau ffitiadau dŵr'** – Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999.


# 1. Cyflwyniad

Lluniwyd y ddogfen hon er mwyn cydymffurfio â 'Rheolau codi tâl cyfanwerthu a gyhoeddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 66E a 117I o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991' Ofwat ar gyfer safleoedd Cymwys. Yn unol â'r gofynion gwybodaeth yn A3 o'r rheolau codi tâl cyfanwerthu, mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r costau sylfaenol, y rheini sy'n ymwneud fel arfer â chostau blynyddol sy'n seiliedig ar fesurydd a/neu gostau cyfeintiol ar gyfer dŵr. Cânt eu cymhwyso at unrhyw gytundeb adran 66D lle mae Manwerthwr yn rhan o'r cytundeb hwnnw.

Mae cwmpas y farchnad gystadleuol ar gyfer cwsmeriaid a wasanaethir gan gwmnïau sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru yn gyfyngedig i ddarparu gwasanaethau dŵr ac yn cwmpasu cwsmeriaid dibreswyl sydd â safle Cymwys. Codir tâl ar y cwsmeriaid hyn gan ddefnyddio ein tariffau diwydiannol dŵr yfadwy, tariffau diwydiannol dŵr anyfadwy, tariffau safonol neu gytundebau arbennig.

### Ardal gyflenwi'r Cwmni

Mae'r Cwmni'n cyflenwi dŵr yn yr ardal a ddangosir ar y map isod.



## 2. Sut i gysylltu â ni

**Ffôn**
0800 260 5053 (24 awr)

**Ar-lein**
wholesale.dwrcymru.com/cy-gb

**E-bost**
WholesaleServiceCentre@dwrcymru.com

**Post**
Dŵr Cymru
Canolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu
Blwch SP 3164
Caerdydd
CF30 0FF

Ein horiau swyddfa ar gyfer derbyn gohebiaeth yw rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc)

## 3. Sut i dalu

**Taliad BACS**
Cod didoli: 52-21-07
Rhif y cyfrif: 01500007

**BACS o dramor**
Rhif IBAN:
GB51 NWBK 5221 0701 5000 07
Rhif BIC: NWBK GB 21 22X

Cofiwch gynnwys eich rhif cyfeirnod cwsmer wrth wneud eich taliad.

## 4. Anghydfodau

Ymdrinnir â phob anghydfod ac anghytundeb sy'n deillio o'r Gwasanaethau Cyfanwerthu a ddarperir i fanwerthwyr neu sy'n gysylltiedig â nhw a chaiff ei ddatrys yn unol ag Adrannau 17 a 18 o'r Telerau Busnes ac Adran 17, 18 ac Atodlen 9 i'r Cod Trefniadau Marchnad.

## 5. Treth ar Werth

Caiff TAW ei hychwanegu at daliadau cyflenwi dŵr (gan gynnwys dŵr ar gyfer adeiladu) i fanwerthwyr. Pan gaiff TAW ei chodi, gwneir hynny yn unol â'r gyfradd bresennol pan gaiff yr anfoneb ei hanfon neu pan gaiff y taliad ymlaen llaw ei wneud. Caiff TAW ei hychwanegu at yr holl daliadau nad ydynt yn rhai sylfaenol a gwasanaethau gwerth ychwanegol, oni nodir fel arall.

## 6. Atebolrwydd am daliadau

Anfonir anfonebau ar gyfer taliadau Sylfaenol yn unol ag Amserlen Bilio Cyfanwerthu'r Cwmni.

### Taliadau sylfaenol

Codir tâl ar bob manwerthwr am gyflenwi Gwasanaethau Dŵr i SPIDau cysylltiedig sydd wedi'u cofrestru iddo pan gaiff y gwasanaethau eu darparu. Codir tâl am Eiddo Gwag yn unol â Chodau'r Farchnad.

Dosrannir taliadau sefydlog ar sail diwrnod calendr. Mae taliadau cyfeintiol dŵr yn seiliedig ar y dŵr a ddefnyddir fel y'i mesurir gan y mesurydd mewn metrau ciwbig oni bai bod y Cwmni yn cytuno ar addasiad cyfeintiol ar gyfer dŵr a ddefnyddir ar gyfer diffodd tân neu a gollir mewn gollyngiadau fel y nodir isod:

### Dŵr a ddefnyddir ar gyfer diffodd tân

Gellir codi tâl am yr holl ddŵr a ddefnyddir ac eithrio dŵr a ddefnyddir at ddibenion diffodd tân neu brofion yn unig. Gellir codi tâl am ddŵr a ddefnyddir ar gyfer profion ac ymarferion tân oni roddir 7 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i'r Cwmni.

### Lwfansau gollyngiadau

Dim ond os mai'r Cwmni oedd yn gyfrifol am y gollyngiad y rhoddir lwfansau ar gyfer taliadau cyfeintiol dŵr ar gyfer safleoedd dibreswyl.[2]

Ar gyfer safleoedd defnydd cymysg, h.y. safle dibreswyl wedi'i gyfuno â chartref, er enghraifft Campws Prifysgol sydd â bloc llety y mae pobl yn byw ynddo yn barhaol, rhoddir lwfans dŵr ar gyfer elfen breswyl y bil yn unig. Caiff y lwfans ar gyfer yr elfen breswyl ei gyfrifo ar sail y ffigurau defnydd blynyddol y mae'r Cwmni yn eu defnyddio i gyfrifo ein tariff mesuredig preswyl ar sail asesiad fel y'i ceir yn y Cynllun Taliadau.

Mae'n rhaid gwneud cais am lwfans o fewn chwe mis i drwsio'r gollyngiad. Ni chaiff lwfans ei roi os mai esgeulustod y cwsmer neu unigolyn sy'n gweithredu ar ei ran a achosodd y gollyngiad.

## 7. Endidau achrededig

Mae'r Cwmni yn gweithredu cynllun achredu ar gyfer datgysylltiadau dros dro ac ailgysylltiadau hyd at 40mm. Nid yw Dŵr Cymru yn gweithredu cynllun achredu ar gyfer gweithgareddau datgysylltu dros dro sydd dros 40mm na datgysylltiadau parhaol yn ei ardal.

## 8. Cymelldaliadau gan gynnwys safle gwag ac eiddo gwag

Nid yw'r Cwmni yn cynnig unrhyw gynlluniau cymelldaliadau yn ei ardal.

## 9. Rhestrau codi taliadau eraill

**Cynllun Taliadau**
Taliadau dŵr a charthffosiaeth ar gyfer cwsmeriaid preswyl a dibreswyl.

**Rhestr Taliadau Cyfanwerthu**
Mae'r elfennau cyfanwerthu o daliadau dŵr a charthffosiaeth er gwybodaeth yn unig.

**Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr**
Taliadau ar gyfer cysylltiadau newydd a gweithgareddau eraill i gefnogi Datblygwyr.

2. Gall eiddo dibreswyl fod yn gymwys i gael lwfans carthffosiaeth ar gyfer y gollyngiad cyntaf lle nad yw'r dŵr a gollwyd o ganlyniad i ollyngiad wedi dychwelyd i'r garthffos.

# 10. Taliadau sylfaenol

## 10.1 Tariff diwydiannol dŵr yfadwy

Mae'r tariff diwydiannol dŵr yfadwy yn cynnwys sawl band sy'n adlewyrchu defnydd blynyddol. Mae Tabl 1 isod yn dangos y tariffau dŵr cyfanwerthu i ddefnyddiwr mawr ar gyfer pob un o'r pum band cyflenwi dros 50 megalitr (Ml) neu 50,000m$^3$ y flwyddyn.

Mae pob band yn berthnasol i'r holl ddŵr a ddefnyddir rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 ac yn cynnwys:

— Tâl sefydlog am y flwyddyn;
— Tâl gwasanaeth blynyddol ar gyfer pob mesurydd sy'n gwasanaethu'r safle yn seiliedig ar faint y mesurydd (fel y dangosir yn Nhabl 2 isod);
— Tâl cyfeintiol ar gyfer yr holl ddŵr a ddefnyddir.

### Tabl 1

Dangosir y tâl sefydlog a'r tâl cyfeintiol ar gyfer pob un o'r bandiau isod. Mae'r ail golofn yn nodi'r defnydd blynyddol lle byddai'r band yn fwyaf economaidd.

| Tariff | Defnydd dangosol (Ml/y flwyddyn) | Tâl sefydlog (£) | Tâl cyfeintiol (£/m$^3$) |
|---|---|---|---|
| Safonol | <50 | * | 1.3984 |
| Band 1 | 50 - 99 | 19,528.00 | 1.0079 |
| Band 2 | 100 - 249 | 25,677.18 | 0.9464 |
| Band 3 | 250 - 499 | 37,172.58 | 0.9004 |
| Band 4 | 500 - 999 | 77,112.94 | 0.8205 |
| Band 5 | >1000 | 147,429.41 | 0.7502 |

### Tabl 2

Mae'r tâl gwasanaeth blynyddol yn gymwys i bob mesurydd ac mae'n seiliedig ar faint y mesurydd enwol fel a ganlyn:

| Maint y mesurydd (mm) | Tâl (£) | Maint y mesurydd (mm) | Tâl (£) |
|---|---|---|---|
| Hyd at 20mm | 14.08 | 65mm | 592.52 |
| 25mm | 76.89 | 80mm | 788.48 |
| 30mm | 147.15 | 100mm | 938.95 |
| 40mm | 286.09 | > 150mm | 1,211.18 |
| 50mm | 439.96 | | |

### 10.2 Tariff diwydiannol dŵr anyfadwy

Mae'r tariff diwydiannol dŵr anyfadwy ar gael ar gyfer cyflenwadau o ddŵr wedi'i drin yn rhannol a dŵr heb ei drin yn dibynnu ar ba un a yw'r cyflenwad yn derbyn unrhyw driniaeth. Mae Tabl 3 isod yn dangos y tariffau cyfanwerthu dŵr anyfadwy.

Mae pob band yn berthnasol i'r holl ddŵr a ddefnyddir rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 ac yn cynnwys:

— Tâl sefydlog am y flwyddyn;

— Tâl gwasanaeth blynyddol ar gyfer pob mesurydd sy'n gwasanaethu'r safle yn seiliedig ar faint y mesurydd (gweler tabl 2);

— Tâl cyfeintiol ar gyfer yr holl ddŵr a ddefnyddir.

### Tabl 3

Dangosir y tâl sefydlog a'r tâl cyfeintiol ar gyfer pob un o'r bandiau isod. Mae'r ail golofn yn nodi'r defnydd blynyddol lle byddai'r band yn fwyaf economaidd i'r cwsmer.

| Band | Tariff | Defnydd dangosol (Ml/y flwyddyn) | Tâl sefydlog (£) | Tâl cyfeintiol (£/m$^3$) |
|---|---|---|---|---|
| A | Dŵr wedi'i drin yn rhannol | < 50 | | 1.2939 |
| | Dŵr heb ei drin | < 50 | | 1.2063 |
| B | Dŵr wedi'i drin yn rhannol | > 50 | 40,851.34 | 0.4769 |
| | Dŵr heb ei drin | > 50 | 41,612.35 | 0.3741 |

### 10.3 Ceisiadau newid tariff

Ni fydd y cyfanwerthwr yn derbyn mwy nag un cais bob mis calendr i newid tariff yn unrhyw Fan(nau) Cyflenwi.

## 10.4 Trefniadau arbennig

Mae tri chytundeb arbennig gan y Cwmni ar gyfer cyflenwadau i safleoedd Cymwys.

**WSHNONPOT9**
Mae'r cytundeb hwn i gyflenwi dŵr anyfadwy yn gytundeb math cadw ar gyfer cyflenwi dŵr heb ei drin. Dechreuodd yn 1994 i redeg am 30 mlynedd ac mae'n gorffen yn 2024. Mae'r cwsmer wedi cadw 14.5 Ml y diwrnod. Caiff y tâl cadw sy'n gymwys i'r swm a gedwir nas defnyddir ei addasu yn ôl y symudiad canrannol blynyddol cyfartalog yn y Mynegai Prisiau Cynhyrchwyr. Codir tâl am faint a thaliadau sefydlog drwy ddefnyddio cyfraddau safonol. Dangosir y tâl cadw dŵr cyfanwerthu yn nhabl 4 isod.

### Tabl 4

Y tâl cadw dŵr cyfanwerthu ar gyfer cytundeb arbennig WSHNONPOT9

| Tariff | Tâl cyfeintiol (£/m$^3$) |
|---|---|
| Tâl cadw | 0.2025 |

**WSHNONPOT10a ac WSHNONPOT10b**
Codir tâl am ddŵr a gyflenwir ar sail gyfeintiol yn unig, wedi'i addasu yn ôl y symudiad canrannol blynyddol cyfartalog yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys Tai (CPIH).

| Tariff | Tâl cyfeintiol (£/m$^3$) |
|---|---|
| Tâl Cyflenwi | 0.3963 |

# 11. Taliadau nad ydynt yn rhai sylfaenol

**Adran A: Gosod pibellau gwasanaeth plwm newydd**

Fel arfer, cyfrifoldeb y cwsmer yw'r pibellau o ffin yr eiddo i mewn i'r eiddo. Os bydd y Cwmni yn gweld bod lefel y plwm mewn sampl dŵr yn uwch na'r safon reoliadol, bydd yn cysylltu â'r cwsmer i'w gynghori ar sut i leihau ei amlygiad i blwm. Bydd y Cwmni yn newid unrhyw bibellau plwm y mae ganddo gyfrifoldeb amdanynt, h.y. rhwng y brif bibell ddŵr a ffin yr eiddo, am ddim.

**Adran B: Darparu a chynnal a chadw hydrantau tân**

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Gosod hydrant | Ar brif bibell newydd (diamedr 80-200mm) | 730.33 |
| Gosod hydrant | Ar brif bibell bresennol (diamedr 80-200mm) | 1,338.90 |
| Gosod postyn/plât marcio | | 134.21 |
| Tynnu postyn/plât marcio | | 134.21 |
| Tynnu'r hydrant | Oddi ar y brif bibell bresennol (diamedr 80-200mm) | 629.18 |
| Trwsio'r hydrant | Categori 1 (e.e. caead a ffrâm) | 241.63 |
| Trwsio'r hydrant | Categori 2a (e.e. caead, ffrâm a darn o siambr) | 456.42 |
| Trwsio'r hydrant | Categori 2b (e.e. caead, ffrâm, ailosod, gosod wasier newydd) | 738.11 |
| Trwsio'r hydrant | Categori 3 (gosod hydrant newydd) | 817.48 |

Pan fydd y Gwasanaeth Tân yn gofyn am waith trwsio neu osod mewn perthynas â Hydrant Tân presennol, bydd Dŵr Cymru yn adennill yr holl gostau sy'n gysylltiedig ag ymchwilio, gweinyddu, hysbysu statudol a thrwsio/gosod.

Codir tâl rhesymol am ymweliadau aflwyddiannus.

**Adran C: Difrodi cyfarpar** (Y tu allan i gwmpas TAW)

Os bydd trydydd parti yn difrodi ased, bydd y Cwmni yn adennill yr holl gostau sy'n gysylltiedig ag ymchwilio, gweinyddu, hysbysu statudol, colli gwasanaeth cwsmeriaid, trwsio neu osod ased newydd. Codir tâl rhesymol am ymweliadau aflwyddiannus.

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Difrod | Difrod gan drydydd parti a gwaith unioni | Pris ar gais |

**Adran D: Archwiliadau ffitiadau dŵr**

Cynnal archwiliad i ganfod a yw unrhyw ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu a wnaed neu sy'n cael effaith o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 mewn perthynas ag unrhyw ffitiadau dŵr neu mewn perthynas â gwastraffu neu gamddefnyddio dŵr yn cael ei thorri, neu wedi cael ei thorri. Ar ôl archwiliad Rheoliadau Ffitiadau Dŵr cychwynnol lle mae'r Cwmni wedi gweld bod darpariaethau wedi cael eu torri, cytunir ar raglen waith ac amserlen i gwblhau'r gwaith gyda'r manwerthwr/cwsmer. Pan na chaiff y camau gweithredu y cytunwyd arnynt eu cwblhau ac mae angen ymweliadau ychwanegol i sicrhau cydymffurfiaeth, bydd tâl yr awr yn gymwys ar gyfer archwiliadau dilynol.

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Archwiliad | Archwiliad cychwynnol a gwaith dilynol cyntaf | Dim tâl |
| Archwiliad | Archwiliad dilynol | 48.69 |
| Archwiliad | Ymweliad aflwyddiannus | 26.78 |

**Adran E: Archwiliadau safle**

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Un arolygydd | Cadarnhau a dilysu trefniadau cyflenwi neu arolwg ail-leoli mesurydd/ gosod mesurydd newydd pan fydd angen un arolygydd. | 48.69 |
| Un arolygydd | Awr ychwanegol (yr un ymweliad) | 29.22 |
| Un arolygydd | Ymweliad aflwyddiannus | 26.78 |
| Dau arolygydd | Cadarnhau a dilysu trefniadau cyflenwi neu arolwg ail-leoli mesurydd/ gosod mesurydd newydd pan fydd angen dau arolygydd | 94.54 |
| Dau arolygydd | Awr ychwanegol (yr un ymweliad) | 56.72 |
| Dau arolygydd | Ymweliad aflwyddiannus | 52.00 |

Pan fydd manwerthwr yn gofyn am gadarnhad o'r trefniadau cyflenwi neu arolwg ail-leoli mesurydd/gosod mesurydd newydd ar safle ei gwsmer. Mae'r tâl safonol yn caniatáu hyd at awr i'r arolygydd fod ar y safle. Mae'r trefniadau cyflenwi ar gyfer cwsmeriaid sydd â safleoedd cymwys yn aml yn gymhleth ac yn y rhan fwyaf o achosion bydd angen i ddau arolygydd fod yn bresennol am resymau diogelwch. Codir taliadau ychwanegol os bydd angen i'r arolygydd neu'r arolygwyr fod ar y safle y tu hwnt i'r apwyntiad awr neu os bydd angen iddo/iddynt ddychwelyd i gwblhau'r arolwg. Codir tâl os na ellir cynnal yr arolwg naill ai ar gais y manwerthwr neu gwsmer y manwerthwr.

**Adran F: Darparu a defnyddio safbibellau**

Mae safbibellau ar gael i'w llogi drwy asiant penodedig y Cwmni. Dim ond at ddefnydd penodol y gellir llogi safbibell. Dim ond safbibellau a gaiff eu llogi gan asiant penodedig gyda'n caniatâd ni y caniateir eu defnyddio ar ein rhwydwaith. Mae gan bob safbibell fesurydd a chaiff TAW ei hychwanegu at daliadau cyflenwi dŵr. Codir tâl rhesymol am ymweliadau aflwyddiannus. I gael manylion llawn, ewch i dwrcymru.com.

## Adran G: Profi mesuryddion a chyfnewid mesuryddion

Pan fydd manwerthwr yn gofyn i'r Cwmni gynnal prawf cywirdeb mesurydd wedi'i achredu'n allanol ar fesurydd sy'n gysylltiedig â SPID cofrestredig, bydd y tâl yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r gost o gyfnewid y mesurydd, profi'r mesurydd a llunio adroddiad ar gywirdeb y mesurydd. Os gwelir nad yw'r mesurydd gwreiddiol yn gweithredu o fewn yr ystod cywirdeb sy'n gysylltiedig â'r mesurydd, ni fydd y Cwmni yn ailgodi cost y prawf na chost y gwaith o gyfnewid y mesurydd. Codir tâl rhesymol am ymweliadau aflwyddiannus ar gyfer yr holl daliadau a restrir yn y tabl isod.

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Tâl (£) |
|---|---|---:|
| Profi mesuryddion | Prawf cywirdeb mesurydd wedi'i achredu'n allanol, adroddiad ar gywirdeb mesurydd a chostau cysylltiedig | Pris ar gais |
| Cyfnewid mesurydd | Heb gloddio, ar gyfer mesurydd 25mm | 162.85 |
| Cyfnewid mesurydd | Heb gloddio, ar gyfer mesurydd 30mm | 249.78 |
| Cyfnewid mesurydd | Heb gloddio, ar gyfer mesurydd 40mm | 295.48 |
| Cyfnewid mesurydd | Heb gloddio, ar gyfer mesurydd 50mm | 531.63 |
| Cyfnewid mesurydd | Heb gloddio, ar gyfer mesurydd 80mm | 576.95 |
| Cyfnewid mesurydd | Heb gloddio, ar gyfer mesurydd 100mm | 623.09 |
| Cyfnewid mesurydd | Heb gloddio, ar gyfer mesurydd 150mm | 919.40 |
| Cyfnewid mesurydd | Heb gloddio, ar gyfer mesurydd 200mm | 1,029.51 |
| Cyfnewid mesurydd | Heb gloddio, ar gyfer mesurydd dros 200mm | Pris ar gais |
| Cyfnewid mesurydd | Gyda chloddio, ar gyfer mesurydd 25mm | 517.24 |
| Cyfnewid mesurydd | Gyda chloddio, ar gyfer mesurydd 30mm | 604.17 |
| Cyfnewid mesurydd | Gyda chloddio, ar gyfer mesurydd 40mm | 649.87 |
| Cyfnewid mesurydd | Gyda chloddio, ar gyfer mesurydd 50mm | 886.03 |
| Cyfnewid mesurydd | Gyda chloddio, ar gyfer mesurydd 80mm | 931.34 |
| Cyfnewid mesurydd | Gyda chloddio, ar gyfer mesurydd 100mm | 977.49 |
| Cyfnewid mesurydd | Gyda chloddio, ar gyfer mesurydd 150mm | 1,636.70 |
| Cyfnewid mesurydd | Gyda chloddio, ar gyfer mesurydd 200mm | 1,746.80 |
| Cyfnewid mesurydd | Gyda chloddio, ar gyfer mesurydd dros 200mm | Pris ar gais |

**Adran H: Datgysylltu ac ailgysylltu'r cyflenwad dŵr**

Datgysylltu pibell wasanaeth (neu fel arall dorri cyflenwad dŵr) i unrhyw safle ac ailgysylltu cyflenwadau o'r fath â phrif bibell ddŵr. Os bydd angen gwaith galluogi pellach er mwyn i'r cyflenwad gael ei ynysu, darperir amcanbris ar gyfer y gwaith. Codir tâl rhesymol am ymweliadau aflwyddiannus.

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Datgysylltu | Datgysylltu dros dro heb fod angen unrhyw waith galluogi, h.y. cloi'r tap stop neu dynnu'r mesurydd. | Pris ar gais |
| Datgysylltu | Datgysylltu parhaol pan fydd cwsmer dibreswyl neu fanwerthwr yn gofyn i'r cyfanwerthwr ddatgysylltu ei wasanaeth yn barhaol o'r brif bibell ddŵr, bydd y Cwmni yn adennill yr holl gostau sy'n gysylltiedig ag ymchwilio, gweinyddu, hysbysu statudol, datgysylltu ac ailosod. | Pris ar gais |
| Ailgysylltu | Ailgysylltu datgysylltiadau dros dro. | Pris ar gais |
| Ailgysylltu | Caiff ceisiadau i ailgysylltu cyflenwadau sydd wedi'u datgysylltu'n barhaol eu trin fel cais am gyflenwad newydd a chodir tâl priodol. Gweler taliadau Cysylltiadau Newydd yn y Rhestr Taliadau Gwasanaethau ar gyfer Datblygwyr | Bydd taliadau cysylltiadau newydd yn gymwys |

# 12. Gwasanaethau gwerth ychwanegol

## Adran A: Telemetreg a gwasanaethau mesuryddion

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Data Cofnodwr Cyfanwerthu | Mynediad i ddata ar-lein o gyfarpar telemetreg presennol Dŵr Cymru lle mae hyn wedi'i osod. Mae'r tâl a nodir fesul proffil defnyddiwr a gaiff ei greu. Gellir ychwanegu data ar gyfer sawl cofnodwr at broffil defnyddiwr. | 12.74 |
| Darllen Mesurydd Di-farchnad | Darllen mesurydd di-farchnad heb fod yn gylchol. | 30.26 |

## Adran B: Taliadau amrywiol

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Cais Safonol am Wybodaeth | Cynllun yn dangos lleoliad mesurydd unigol. Y tu allan i gwmpas TAW. | 8.24 |
| Cais Safonol am Wybodaeth | Copïau untro o wybodaeth cofnodwr neu geisiadau tebyg eraill am wybodaeth. | 12.17 |
| Cais Ansafonol am Wybodaeth | Lle mae'r gost sylfaenol yn wahanol iawn i gais safonol am wybodaeth, codir tâl yn unol â hynny am y gweithgaredd. | Pris ar gais |